

Damien McCann  
Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Llys Einion  
Stryd yr Eglwys  
Abertyleri  
NP13 6DB

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 17 Mai ac 21 Mai 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

### **Trosolwg**

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
✉ [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Office  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

### **Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

### **Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:**

**Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Dyweddodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod yr awdurdod lleol wedi cadw mewn cysylltiad â nhw, a hynny mewn ffordd ddiogel, drwy gydol y pandemig. Lle y bo angen, mae cyswllt wyneb yn wyneb diogel uniongyrchol wedi parhau, yn amodol ar asesiad risg COVID-19. Dywedodd llawer o bobl fod y staff wedi mynd gam ymhellach; gan gynnwys, lle y bo angen, gyswllt saith diwrnod yr wythnos gyda'r nod o reoli risg er mwyn cadw plant gartref yn llwyddiannus neu gefnogi oedolion i aros yn y gymuned. Gwelsom enghreifftiau o'r ddau wasanaeth yn cydweithio, er enghraifft cafodd gweithwyr cymorth Dechrau'n Deg eu hadleoli i helpu gyda dyletswyddau cartrefi gofal er mwyn cynnal gwasanaethau i'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt yn y gymuned.

Mae'r uwch-reolwyr, ynghyd â'r staff a phartneriaid, wedi gweithio'n galed i ymgorffori ymarfer seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Roedd ymrwymiad yr awdurdod i ymarfer seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn amlwg yn y ffeiliau a welsom, a dywedodd y staff fod hyn yn ategu eu gwaith yn y gwasanaethau oedolion a phlant. Mae'r awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd casglu barn pobl er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ymarfer a chefnogi gwelliannau i wasanaethau. Gwelsom dystiolaeth o grwpiau mentora a sesiynau goruchwyllo cymheiriaid er mwyn rhannu materion yn ymwneud ag achosion, myfyrio arnynt a nodi ymatebion posibl er mwyn dysgu.

Gwelwyd tystiolaeth a oedd yn dangos bod pobl yn cael y cyfle i leisio eu barn a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Roedd prosesau casglu gwybodaeth i gynrychioli amgylchiadau

pobl yn cael eu llywio gan wybodaeth gan sawl asiantaeth bartner berthnasol, yn enwedig yn ystod camau cynnar ymyriadau.

Mae tystiolaeth bod cadeiryddion cynadleddau amddiffyn plant a swyddogion adolygu annibynnol yn monitro ac yn herio gwasanaethau'n rheolaidd, er bod hyn yn gryfach mewn rhai meysydd ymarfer nag eraill. Pan fyddant yn gweithio'n dda, mae'r prosesau hyn yn cynnig mesurau pwysig er mwyn archwilio penderfyniadau ynghylch lles plant. Fodd bynnag, nid oeddem yn hyderus bod swyddogion adolygu annibynnol yn ymgynghori â phob plentyn cyn eu hadolygiadau a'r adolygiad canol cyfnod. Gwelsom fod ymarfer yn anghyson, yn enwedig mewn perthynas â phlant iau. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod swyddogion adolygu annibynnol yn mynd ati i gefnogi plant iau i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau a chyfrannu tuag at y broses adolygu.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ei strategaeth ddiogel ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar waith yn llwyddiannus, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant yn y system ofal. Drwy weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau gofal integredig ac ymatebol, mae nifer y bobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi sefydlogi, ac mae'n parhau i leihau hefyd. Caiff y strategaeth hon ei chefnogi'n gyson gan uwch-reolwyr sy'n craffu ar ymarfer yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gwneir popeth i geisio atal pobl ifanc rhag bod angen derbyn gofal, ac i'r rhai sy'n derbyn gofal allu gadael y system cyn gynted â phosibl os yw'n briodol. Soniodd y staff am ba mor arwyddocaol yw'r Tîm Cefnogi Newid a Fy Nhîm Cefnogi (MyST) sy'n gweithio'n ddyfal gyda theuluoedd i atal pobl ifanc rhag dod yn rhan o'r system ofal. Mae'r Tîm Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig wedi bod yn hollbwysig wrth gefnogi lleoliadau trefniadau Gwarcheidiaeth Arbennig fel opsiwn amgen i'r system ofal er mwyn helpu i atal teuluoedd rhag chwalu ac atal plant rhag gorfod dychwelyd i'r system ofal. Mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth ddirymu nifer o orchmynion gofal a'u troi'n Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau ar gyfer pobl ifanc.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr ac roeddent o'r farn eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Yn ystod y Gwiriad Sicrwydd, gwelsom fod morâl staff yn dda ac roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn gadarnhaol o ran eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol. Clywsom fod cyfleoedd hyfforddi wedi parhau gyda nifer o lwyfannau digidol yn cael eu defnyddio i alluogi staff a phartneriaid i gael hyfforddiant ar-lein. Dywedodd staff newydd gymhwyso wrthym eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod blynyddoedd cyntaf eu hymarfer drwy drefniadau goruchwylio a mentora rheolaidd. Cydnabyddir bod recriwtio a chadw staff yn flaenoriaeth hanfodol i'r busnes. Gwelsom fod yr awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull gweithredu 'tyfu eich hun' rhagweithiol drwy secondio staff i ymgymryd â'u cymhwyster gwaith cymdeithasol.

Roedd gan yr holl staff a'r rheolwyr sylwadau negyddol ynghylch y problemau cyson wrth geisio cael mynediad at System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a lanlwytho gwybodaeth arni. Dywedodd y staff wrthym am lawer o achosion lle roeddent wedi colli gwybodaeth neu heb allu agor y system, a'u bod yn aml yn gorfod lawrlwytho gwaith y tu

allan i oriau gwaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth pobl yn cael ei chofnodi ar y system. Roedd yr uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r problemau hyn, ac maent yn cymryd camau priodol yn barhaus er mwyn ceisio eu datrys.

**Atal – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Mae atal yn rhan hanfodol o fusnes yr awdurdod lleol. Yn y gwasanaethau plant, gwelsom yr ymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau Cymorth Cynnar ac Atal yn dilyn ein harolygiad o'r Gwasanaethau Plant yn 2018. Mae'r dull gweithredu hwn bellach yn gwbl amlwg yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion. Gwelsom fod dull gweithredu integredig cadarnhaol ar waith a oedd wedi arwain at ddiwylliant o atal drwy gydweithio, seilweithiau cefnogol a systemau cyflawni cyson rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd.

Yn y gwasanaethau plant, gwelsom fod ethos y gwaith wedi symud tuag at ymarfer seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Wrth edrych ar ffeiliau, gwelsom fod mwy o bwyslais ar weithio gyda theluedd, gan eu hannog i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i gyflawni canlyniadau. Mae datblygu nifer o wasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal, gan alluogi ymateb cynnar i'r atgyfeiriadau hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymyriadau statudol, wedi bod yn ddatblygiad arwyddocaol. Gwelsom lawer o enghreifftiau mewn ffeiliau o wasanaethau ar ffiniau gofal, megis 'Teuluoedd yn Gyntaf' yn darparu cymorth dwys ac yn rheoli risg drwy gyflwyno ymyriadau i bobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu. Gellir gweld cynnydd sylweddol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol yn ogystal â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei hun ei gefnogi, gan gynnwys drwy ddatblygu dogfennaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n gofyn am gyfraniad llawn y teulu er mwyn ei chwblhau.

Ar y cyfan, gwelsom fod dull gweithredu seiliedig ar ganlyniadau wedi'i ymgorffori mewn ymarfer yn y gwasanaethau oedolion, a bod hyn yn cefnogi trefniadau cydgynhyrchu a phrosesau i nodi canlyniadau personol. Gwelsom a chlywsom fod gweithwyr proffesiynol amrywiol yn nhimau integredig y gwasanaethau oedolion yn cydweithio i gefnogi llesiant a diogelwch pobl. O'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wrth y drws ffrynt a fu'n gweithredu'n ôl yr arfer yn ystod y pandemig, gan alluogi pobl i gael gafael ar gymorth priodol, gan gynnwys darpariaeth ailalluogi, i ddatblygu Timau Allgymorth Critigol fel opsiwn amgen i wasanaethau seibiant a gweithgareddau dydd, mae'r awdurdod wedi ymdrechu i hybu annibyniaeth a chefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth.

Gwelsom fod gwersi a ddysgwyd o ddatblygu gwasanaeth hwb 7 diwrnod ar gyfer ysbytai aciwt ac ysbytai cymuned, yn ogystal ag atgyfeiriadau yn y gymuned mewn ymateb i'r pandemig, wedi gwella meysydd ymarfer. Er enghraifft, dulliau rheoli achosion a phrosesau gweinyddol, data perfformiad gwell a ffurflenni asesu symlach er mwyn cefnogi ymarfer y staff yn well. Dywedodd darparwyr a staff wrthym am y gwaith cadarnhaol a wnaed gan y Tîm Adnoddau Cymunedol. Gwelsom dystiolaeth mewn ffeiliau o bobl yn manteisio ar gyfleoedd adsefydlu perthnasol a phriodol yn y gymuned ac mewn cartrefi gofal, gyda'r gwasanaeth yn

darparu cymorth ailalluogi i'r rhai a oedd yn adfer yn dilyn effaith COVID-19, i gefnogi gyda gofal diwedd oes.

Roedd ymwybyddiaeth ac ymarfer staff i bennu a oes gan bobl y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol, a gwneud penderfyniadau budd pennaf ar eu rhan lle y bo angen, yn cael eu hadlewyrchu mewn cofnodion ac roedd y sampl o asesïadau a welwyd o ansawdd da.

**Partneriaethau ac Integreiddio: Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Mae trefniadau partneriaeth cryf ac ymateb cyngor cyfan wedi sicrhau bod cymorth wedi parhau i gael ei ddarparu i'r oedolion a'r plant mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent drwy gydol y pandemig. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'r gwasanaeth ac maent wedi cadw pwyslais cadarn ar ddarparu gwasanaethau i oedolion a phlant sydd angen gofal a chymorth yn y ffordd orau bosibl, er gwaethaf y tarfu a'r baich ariannol a achoswyd gan y pandemig. Mae'r arweinwyr a'r uwch-reolwyr yn parhau i adolygu ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i'r pandemig, gan werthuso effaith a/neu wersi a ddysgwyd er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol.

Gwelsom a chlywsom am enghreifftiau cadarnhaol o ddull amlasiantaethol o reoli risgiau, yn ogystal ag ymarferwyr a rheolwyr yn cydweithio yn ystod y pandemig i rannu gwybodaeth/cudd-wybodaeth er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ac yn rheoli risgiau'r bobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Dywedodd darparwyr wrthym am y dulliau cyfathrebu da a'r cyfarfodydd cadarnhaol a gafwyd â chomisiynwyr yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig, gyda staff sy'n monitro contractau yn cynnal galwadau lles dyddiol â darparwyr annibynnol.

Drwy edrych mewn ffeiliau a siarad â phobl, gwelsom fod y cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ym maes iechyd yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol ac yn llwyddiannus er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl. Mae gwasanaethau a swyddi integredig wedi darparu'r sylfeini ar gyfer cydweithio ym mhob rhan o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelsom ymarferwyr o sectorau a gwasanaethau gwahanol yn cydweithio'n effeithiol gyda staff o dimau adnoddau cymunedol a gafodd eu hadleoli i ysbytai cymuned, yn gweithio ochr yn ochr â staff iechyd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel ac amserol. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod gwaith partneriaeth effeithiol yn cyfrannu at gynlluniau seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar unigolion, sy'n golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd pobl yn yr awdurdod lleol fod yn fwy annibynnol.

Dywedodd darparwyr gwasanaethau a gomisiynir wrthym am y cymorth a gynigiwyd gan yr awdurdod lleol wrth geisio deall y swm enfawr o wybodaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â'u gwasanaeth a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio sy'n ddiogel o ran COVID-19. Soniwyd am y ffordd y cafodd cyfarpar diogelu personol (PPE) ei ddosbarthu'n brydlon drwy weithio

mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Adran Iechyd yr Amgylchedd, a'r ffordd y cafodd y rhaglen i ddsbarthu Dyfeisiau Llif Unffordd ei chydlynu'n ddiweddar.

Mae'r ffaith bod gan gydlynnydd addysg a mentoriaid plant sy'n derbyn gofal fynediad at System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru wedi helpu cyfarwyddiaeth addysg a gwasanaethau plant yr awdurdod i gyfathrebu, gan olygu bod modd gweithredu'n brydlon ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r plant sydd fwyaf agored i niwed.

Clywsom gan bartneriaid fod y Tîm Diogelu yn gweithio'n dda gyda phobl o bob rhan o'r sector. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio da rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r trydydd sector, gan weithio gyda phobl yn uniongyrchol i gyflawni eu canlyniadau diogelwch. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio dull gweithredu amlasiantaethol wrth reoli risgiau, ac ymarferwyr yn nodi ac yn monitro plant ac oedolion agored i niwed sy'n wynebu risg. Fodd bynnag, dywedodd y staff fod rhai asiantaethau'n cael trafferth cydbwysu prosesau rheoli risg a chanlyniadau i deuluoedd. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol bod angen gwneud gwaith pellach gydag asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod dull gweithredu seiliedig ar gryfderau wedi'i ymgorffori a bod gwell dealltwriaeth ohono.

Yn strategol, roedd yr awdurdod a'i bartneriaid wedi ymateb i'r pandemig drwy gydweithio i gefnogi dull a rennir. Er enghraifft, addasu polisïau a gweithdrefnau gyda chydweithwyr iechyd er mwyn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er gwaethaf oedi yn ei weithgarwch yn ystod camau cychwynnol y pandemig, wedi parhau i fod yn ddylanwadol wrth lunio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol.

**Llesiant: Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Yn y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant, gwelsom yr ymatebir i bryderon diogelu yn brydlon yn unol â gofynion statudol. Drwy adolygu cofnodion achos a thrafod ag ymarferwyr, cawsom sicrwydd yr ymatebir mewn ffordd amserol a chymesur i bryderon diogelu sy'n ymwneud ag oedolion a phlant. Roedd trafodaethau a chyfarfodydd strategol yn cael eu cynnal yn amserol a'u cefnogi'n dda gan asiantaethau partner, a oedd yn arwain at ymholiadau effeithiol.

Gwelsom fod lleisiau a dymuniadau pobl sy'n wynebu risg yn cael eu cynnwys yn y ddogfennaeth ddiogelu ac, yn y rhan fwyaf o achosion, gwelsom dystiolaeth bod arferion casglu gwybodaeth a chysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill yn dda, a bod y dadansoddiad a'r penderfyniad yn cael eu cofnodi'n glir. Nodwyd bod y gwaith o ddadansoddi risgiau yn dda, bod y broses o wneud penderfyniadau yn dda, bod cynlluniau amddiffyn ar waith, a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn ôl yr angen.

Mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn dadlau'n frwd o blaid anghenion pobl ifanc. Ceir cyfranogiad a diddordeb cryf gan aelodau ac arweinwyr y cyngor, a fydd yn aml yn cyfarfod yn uniongyrchol â phobl ifanc ac yn dangos diddordeb go iawn yn eu bywydau. Maent yn cydnabod anghenion penodol y bobl ifanc yn eu gofal ac yn ymdrechu i wneud eu gorau glas drostynt.

Siaradodd pobl ifanc a oedd wedi gadael gofal yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent wedi'i gael gan eu cynghorwyr personol. Roedd pob un o'r farn bod ymrwymiad eu cynghorwyr personol wedi'u helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae'r awdurdod wedi gwneud cryn dipyn o waith ym maes tai a chyda darparwyr tai er mwyn gwella argaeledd llety i'r rhai sy'n gadael gofal a sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn amgylchiadau'r bobl ifanc y gwnaethom gyfweld â nhw.

### **Dull:**

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â gofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys pobl ifanc a oedd wedi gadael gofal
- gwnaethom fwrw golwg dros 25 o ffeiliau
- gwnaethom gynnal deg gyfweiliad olrhain achosion â staff
- gwnaethom gynnal wyth arolwg i bobl a oedd â phrofiad o ofal a chymorth, darparwyr, sefydliadau trydydd sector, staff, yr heddlu, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- aethom i gyfarfod o'r Panel Adnoddau ac Anghenion Cymhleth
- gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o'r heddlu, yr adran addysg, iechyd a'r trydydd sector

### **Y Camau Nesaf**

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y gwiriad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lou Bushell-Bauers', written in a cursive style.

**Lou Bushell-Bauers**

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

**Arolygiaeth Gofal Cymru**